Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cymer Afan,
# Stryd Margam,
# Cymmer,
# Port Talbot.
# SA 13 3EE

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Hydref 2011**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol ar gyfer disgyblion oedran tair i un ar ddeg yw Ysgol Gynradd Cymer Afan. Fe'i lleolir ym mhentref gwledig Cymmer yn nyffryn Afan tua saith milltir i'r gogledd o Bort Talbot, yn Awdurdod Lleol Nedd Port Talbot. Mae amrywiaeth o dai wedi ei rhentu a thai perchennog preswyl yn y pentref, gyda nifer o'r tai yn nodweddiadol o hen gymuned lofaol.

Fe'i trefnir i dri dosbarth oedran cymysg. Dysgir plant oedran meithrin a derbyn ochr yn ochr â disgyblion Blwyddyn 1 yn nosbarth 1. Mae dosbarth 2 yn cynnwys disgyblion ym mlynyddoedd 2, 3 a 4 a dosbarth 3 yn cynnwys disgyblion Blynyddoedd 5 a 6. Mae 63 o ddisgyblion llawn amser ar y cofrestr, sy'n cynnwys pum disgybl oedran meithrin sy'n mynychu rhan amser. Maint cyfartalog dosbarthiadau yw 21. O ganlyniad i gau ysgol gyfagos mae'r nifer sy'n cychwyn eleni wedi codi o un deg pedwar o ddisgyblion. Mae pedwar athro llawn amser, un athro rhan amser (0.4) a thri cymhorthydd dysgu, gan gynnwys nyrs feithrin â chymhwyster, yn yr ysgol. Mae cymhorthydd dysgu ychwanegol yng ngofal y rhaglen dysgu gyflym.

Dros y ddwy flynedd diwethaf bu newid arwyddocaol yn y staffio o ganlyniad i ymddeoliadau a thoriadau cyllidol. Y dirprwy bennaeth ar hyn o bryd yw'r pennaeth gweithredol oherwydd ymddeoliad pennaeth yr ysgol yn haf 2011. Hi fydd y pennaeth gweithredol am y flwyddyn nesaf hyd nes y daw'r ysgol yn rhan o ffederaleiddio ysgolion ym Mlaenau Dyffryn Afan. Fe fydd pennaeth y ffederasiwn o ysgolion, sef pennaeth presennol Ysgol Gyfun Cymer Afan ac ysgol cynradd Pen Afan, yn cymryd yr awenau fel pennaeth yr ysgol. Meithrinir cysylltiadau agos gydag Ysgol Gyfun Cymer Afan yn barod er mwyn paratoi ar gyfer y fenter.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o ystod lawn o alluoedd ac o ystod eang o gefndiroedd, gyda nifer yn dod o gartrefi gweddol ddifreintiedig. Mae dau ddeg naw y cant o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd wedi dwblu dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae hyn yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae tua 17% o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig , ac mae'r ffigwr hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd. Mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae nifer fach o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Nid oes yr un disgybl yn dod o gartref â Chymraeg yn iaith gyntaf a Saesneg yw prif iaith cartrefi'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ennill y Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol. Fe'i harolygwyd diwethaf ym mis Hydref 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cymer Afan yw £5,066, sy'n cymharu gydag uchafswm o £7,911 ac isafswm o £2,483 ar gyfer ysgolion cynradd yn Nedd Port Talbot. Yr ysgol sydd ar gyllideb fesul disgybl 9fed uchaf o'r 71 ysgol gynradd yn Nedd Port Talbot

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn dda;
- mae safon y gofal a chyfarwyddyd yn dda; ac
- mae ansawdd yr addysgu'n dda.

Fodd bynnag:

- nid yw perfformiad yr ysgol, o'i gymharu ag ysgolion tebyg, yn dda dros y blynyddoedd diwethaf ac mae cyflawniad y disgyblion yn rhy amrywiol;
- mae diffygion wrth gymhwyso medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm; a
- nid yw athrawon yn gwneud defnydd digonol o ddata asesu i gefnogi gosod targedau ac i godi safonau disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae'r pennaeth gweithredol yn datblygu synnwyr cadarn o ddibenion cyffredin ac wedi ei hymrwymo'n llwyr i wella'r ysgol;
- mae arweinwyr pwnc yn canolbwyntio ar godi cyrhaeddiad disgyblion; ac
- mae llywodraethwyr nawr yn cyfranogi fwy wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Fodd bynnag:

- er bod y pennaeth gweithredol sydd newydd ei phenodi yn darparu cyfeiriad clir i'r ysgol, a ganddi syniad clir o flaenoriaethau ar gyfer gwella, mae'n rhy gynnar eto i farnu'r effaith ar wella safonau disgyblion ac ansawdd yr addysg a ddarparir; ac
- nid yw hunan werthuso yn gyffredinol, tan yn ddiweddar, yn canolbwyntio digon ar wella safonau ac ansawdd yr addysgu a dysgu, ac nid yw'r adroddiad hunan werthuso cyfredol wedi cael amser i gael effaith ar safonau a darpariaeth.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau mewn darllen, ysgrifennu, rhifedd a TGCh ar draws yr ysgol;

A2 barhau i ddatblygu gweithdrefnau asesu fel y defnyddir yr wybodaeth yn llawn i godi safonau ac i sicrhau bod disgyblion yn ymwneud mwy ag asesu eu gwaith;

A3 gwella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau i sicrhau parhad a dilyniant ar draws y cwricwlwm;

A4 datblygu system rymus ar gyfer monitro holl agweddau darpariaeth ysgol ac i sicrhau bod hunan werthuso'n systematig, grymus ac yn canolbwyntio'n gryf ar ddeilliannau disgyblion; a

A5 datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethu a rhanddeiliaid eraill yn y broses hunan werthuso a gwelliant ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

*Bydd Ysgol Gynradd Cymer Afan yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Fe fydd Estyn yn monitro'r cynnydd wrth i'r ysgol fynd i'r afael â'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae canlyniadau asesiadau disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y ddau gyfnod allweddol wedi amrywio cryn dipyn dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r niferoedd cymharol fach yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn yn golygu bod niferoedd yn aml yn rhy fach i allu cymharu'n ddibynadwy.

Mae cyfran y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (DPC), y lefel disgwyliedig yn y tri phwnc craidd, wedi bod yn gyffredinol yn is na chyfartaleddau teulu, yr awdurdod addysg a Chymru am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau yn 2010 a 2011 yn well. Fodd bynnag, dim ond 75% o ddisgyblion gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd yn y ddau gyfnod allweddol yn 2011. Mae'r ysgol yn gyffredinol wedi bod yn y chwartel isaf neu drydydd chwartel am y pum mlynedd diwethaf o'i chymharu gydag ysgolion gyda ffigyrau tebyg ar gyfer prydau am ddim. Mae merched fel arfer yn cyflawni'n llawer gwell na'r bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol. Mae nifer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau yn gyffredinol yn is na'r rhai a ddisgwylir gan blant o'r oedran hwn, yn enwedig mewn iaith. O'r pwyntiau cychwyn isel hyn, mae nifer yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu trwy'r ysgol.

Mae perfformiad y rheiny sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gyffredinol wedi bod yn is na chyfartaleddau cenedlaethol, lleol a 'r teulu yn y blynyddoedd cyn 2010. Mae disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol, ond nid yw'r rhai o allu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent.

Yn y gwersi ac yn eu gwaith, mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion meithrin a derbyn yn dda. Cyfathrebant eu hanghenion a'u teimladau'n dda a defnyddiant eu gwaith ysgrifenedig i drefnu eu syniadau. Mae disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd digonol o'u cymharu â'r disgyblion iau, ond dim ond rhai sy'n arddangos agweddau o ysgrifennu ar y lefelau uwch.

Mae craffu ar waith disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos nad yw llawer ohonynt yn ysgrifennu'n dda. Mae cyflwyniad y gwaith a sillafu yn aml yn amrywio mewn ansawdd ac mae cystrawen brawddegau ar adegau heb ei ddatblygu digon. Ychydig o dystiolaeth yn unig sydd o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion gwahanol. Lleiafrif o ddisgyblion sy'n cywiro proflenni, golygu neu adolygu eu gwaith yn briodol.

Mae nifer o'r disgyblion iau yn darllen yn dda am eu hoedran a'u gallu; darllenant yn gywir a gyda hyder. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn darllen gyda digon o fynegiant ac nid ydynt wedi datblygu eu sgiliau darllen uwch, megis y defnydd o gasgliad neu ddiddwythiad.

Mae nifer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymddiddori mewn safbwyntiau disgyblion eraill. Mae nifer yn siarad yn hyderus o flaen eraill a defnyddia rhai

ohonynt eirfa aeddfed. Er bod safonau disgyblion mewn rhifedd a TGCh yn gyffredinol ddigonol, ni wna lleiafrif ddigon o ddefnydd o'r medrau hyn mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Erbyn yr amser iddynt adael yr ysgol, mae gan nifer o ddisgyblion safonau da mewn medrau iaith Gymraeg ac mae medrau ysgrifennu disgyblion hŷn o ansawdd da.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at ffordd iach o fyw a bwyta. Elwant o gael clwb brecwast, sy'n eu galluogi i ddeall pwysigrwydd dechrau maethlon da i'r diwrnod ac mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau ymarfer corff.

Mae graddfa presenoldeb yr ysgol o 90% yn is na chyfartaleddau Cymru ac ysgolion tebyg. Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech gydunol i wella graddfa presenoldeb, gan gydweithio mewn partneriaeth glos gyda'r Swyddog Lles Addysg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac fe arddangosant agwedd dda tuag at ddysgu. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion, yn foesgar, cwrtais ac yn cyd-berthnasu'n dda gyda'i gilydd ac oedolion. Mae ethos gofalgar yn yr ysgol yn amlwg yn y modd mae disgyblion hŷn yn ysgwyddo cyfrifoldebau am les y disgyblion iau.

Caiff barn disgyblion ei werthfawrogi ac mae'r ysgol yn gweithredu ar sail eu barn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau bod ynghlwm â gwneud penderfyniadau ynglŷn â phenderfynu beth a sut maent yn dysgu.

Mae cyngor yr ysgol wedi ei hen sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae aelodau cyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn ynghlwm yn weithredol â gwneud penderfyniadau am fywyd yr ysgol a chynrychioli barnau eu cymheiriaid.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gyffredinol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb nifer o ddisgyblion. Mae cynllunio tymor byr yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Fodd bynnag, ni cheir ond ychydig iawn o gyfleoedd i ddisgyblion i gymhwyso'r sgiliau hyn ar draws holl ardaloedd y cwricwlwm.

Trefnwyd y cwricwlwm yn ddiweddar yn rhaglen dreigl briodol o themâu. Ceir rhaglen dreigl dros ddwy flynedd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a rhaglen bedair blynedd ar gyfer cyfnod allweddol 2, ond nid yw cynllunio thematig bob amser yn talu digon o sylw i sicrhau bod medrau disgyblion yn yr ardaloedd dysgu a'r pynciau yn cael eu dysgu'n systematig. Golyga hyn bod diffyg parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion mewn rhai ardaloedd.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo medrau cyfathrebu disgyblion yn y Gymraeg a'u gwybodaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda.

Mae'r ysgol nawr yn darparu ystod werthfawr o weithgareddau tu allan i'r ysgol ac ymweliadau. Mae'r rhain yn cyfoethogi profiadau'r rhan fwyaf o ddisgyblion ac fe'i mynychir yn dda.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang trwy ail-gylchu, gweithgareddau eco a mentrau marchnad deg.

**Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn ysgogi disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd o leiaf sy'n ddigonol yn eu dysgu. Mae'r berthynas gynnes a chadarnhaol rhwng oedolion a disgyblion a'r anogaeth effeithiol a'r gefnogaeth a dderbynia'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i'w cynnydd a'u lles.

Defnyddia athrawon ystod eang o ymdriniaethau ac adnoddau yn dda, gan gynnwys y defnydd o'r amgylchedd awyr agored, i ennyn diddordeb disgyblion. Yn y mwyafrif o wersi, mae esboniadau'r athrawon yn glir ac fe anogir disgyblion i esbonio'r hyn y maent yn ei feddwl trwy gwestiynu effeithiol. Mae cefnogaeth oedolion, sydd wedi ei gynllunio'n dda gan y cymorthyddion dysgu a gwirfoddolwyr, yn cyfrannu'n dda at ddysgu'r disgyblion. Mewn lleiafrif o sesiynau arsylwyd, fod bynnag, mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio datblygiad medrau ysgrifennu estynedig disgyblion.

Mae system asesu sydd newydd ei datblygu yn dechrau tracio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol. Er bod y marcio gwaith rheolaidd yn dathlu llwyddiant disgyblion wrth ddysgu, dim ond rhai sylwadau sy'n cynnig cyngor ar yr hyn mae angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae gwybodaeth disgyblion o'u targedau ar gyfer gwella a'u hymwneud ag asesu cymheiriaid yn datblygu'n briodol, ond nid yw'r agweddau hyn yn ddylanwadol yn eu dysgu. Mae adroddiad i rieni yn fanwl a nawr ceir cyfleoedd aml i rieni i gwrdd â'r athrawon i drafod cynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol bwyslais clir ar wella iechyd a lles disgyblion. Mae pob aelod o staff yn dynodi ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion disgyblion mewn amgylchedd gefnogol, gofalgar. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad corfforol ac emosiynol disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chynhwysol ble ceir parch a gofal ymysg disgyblion ac oedolion fel ei gilydd. Ysgwydda staff gyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn gydwybodol a'u gweithredu'n effeithiol. Noda disgyblion a rhieni nad yw bwlio yn fater pryder yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

O dan gyfarwyddyd cydlynydd brwdfrydig sydd newydd ei phenodi, mae'r ysgol yn arenwi disgyblion fydd angen cefnogaeth gynnar ac yn darparu rhaglenni priodol ac estynedig ar eu cyfer. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol, ac o ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gefnogaeth i'r disgyblion hyn yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymgynghori â rheini ac yn ei hymglymu'n gynyddol yn yr adolygu rheolaidd o gynlluniau addysg unigol. Defnyddia athrawon a staff cefnogi ymyriadau penodol yn dda i dargedu grwpiau bach o ddisgyblion ac mae'r cynlluniau hyn yn dechrau gwella sgiliau sylfaenol disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ethos cynhwysol a'r awyrgylch gefnogol yn nodweddion cryf o'r ysgol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer disgyblion ac yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn fawr ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae arddangosfeydd deniadol yn cyfoethogi'r ystafell dosbarth a'r coridorau ac yn cefnogi addysgu a dysgu'n dda. Mae'r adeiladau a thiroedd yr ysgol yn gyffredinol mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Gwna'r ysgol ddefnydd rheolaidd o gyfleusterau cyfagos ar gyfer gweithgareddau chwaraeon ac addysg gorfforol. Medda ddigon o offer ac adnoddau i gefnogi holl agweddau'r cwricwlwm.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth gweithredol a benodwyd yn ddiweddar yn darparu synnwyr o gyfeiriad clir i'r ysgol. Mae wedi nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant wedi eu seilio ar safbwyntiau allanol a gwerthusiad o systemau a gweithdrefnau cyfredol.

Yn yr amser byr iawn mae'r pennaeth gweithredol wedi bod yn ei swydd bu nifer o welliannau arwyddocaol i ethos a diwylliant yr ysgol. Mae wedi dechrau sefydlu ymdriniaeth agored a thryloyw, ac yn gynyddol mae hi'n ennill cefnogaeth y rhanddeiliaid i gyd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y mentrau hyn ar wella safonau disgyblion ac ansawdd yr addysg a ddarparir.

Mae aelodau o staff ar bob lefel yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac fe'i cyflawnant, yn gyffredinol, yn briodol. Mae'r pennaeth gweithredol wedi creu system o arweinyddiaeth fwy strategol, sy'n canolbwyntio'n glir ar wella cyrhaeddiad disgyblion. Mae arweinwyr ar bob lefel yn rhannu synnwyr cryf o ddibenion cyffredin ac maent wedi ymrwymo i welliant ysgol. Cofleidiant gyfleoedd newydd ar gyfer arweinyddiaeth a dônt yn fwy atebol trwy ddefnydd mwy pwrpasol o ddata.

Mae gan yr ysgol strwythur rheolaeth lein glir a threfniadau rheoli perfformiad priodol; fodd bynnag, nid yw cymorthyddion dysgu ar hyn o bryd yn rhan o'r broses rheoli perfformiad.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae prosesau hunan werthuso nawr yn dechrau cael effaith mwy cadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae gweithredu'r Cyfnod Sylfaen gan yr ysgol wedi gwella safonau mewn medrau; ac fe hyrwyddir ymwybyddiaeth amgylcheddol, ffordd iach o fyw a dinasyddiaeth yn dda.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn raddol maent yn dod yn fwy rhagweithiol ac yn ymglymu mwy ym mywyd a gwaith yr ysgol fel cyfeillion beirniadol. Maent yn dechrau gwneud defnydd gwell o wahanol ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys data perfformiad, er mwyn cyflawni eu rôl yn monitro perfformiad yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth gweithredol wedi arwain yr ysgol yn dda tuag at safbwynt mwy realistig o'u chryfderau a'u gwendidau. Nid yw hunan werthuso ffurfiol wedi bod yn rhan reolaidd o fywyd ysgol tan yn ddiweddar ac nid yw hunan werthuso wedi ymglymu pob un o'r rhanddeiliaid. Mae hunan werthuso grymus a hunan-feirniadol yn y cyfnod cynnar o ddatblygiad.

Mae'r pennaeth gweithredol ac aelodau o staff wedi cynhyrchu adroddiad hunan werthuso gonest, agored a manwl gywir, sy'n dynodi'n glir y rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'r ardaloedd ar gyfer datblygu. Mae'r ysgol nawr yn dechrau defnyddio data'n briodol i dracio cynnydd disgyblion unigol a dosbarthiadau ac i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon. Mae'r pennaeth gweithredol yn ddiweddar wedi sefydlu cylch monitro newydd, ond mae gweithdrefnau monitro yn y cyfnod cynnar o ddatblygiad. Mae cofnodion monitro blaenorol yn dangos nad yw'r ysgol wedi bod yn ddigon hunan-feirniadol neu'n ddigon grymus wrth ddynodi ardaloedd ar gyfer gwelliant mewn dysgu, addysgu a darpariaeth.

Mae'r pennaeth gweithredol ac arweinwyr pwnc yn dechrau defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu. Dadansoddir yn briodol nawr gryfderau ac ardaloedd ar gyfer gwelliant ac fe'u rhennir gyda staff mewn cyfarfodydd rheolaidd. Caniatâ'r broses hon i athrawon fyfyrio ar arferion ysgol gyfan ac i werthuso ymdriniaethau newydd ar gyfer dysgu ac addysgu a fabwysiedir gan yr ysgol.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw'r targedau a osodir ar gyfer athrawon unigol o ganlyniad i arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau ddim pob amser yn ddigon grymus, penodol a mesuradwy. Golyga hyn nad aethpwyd i'r afael yn llawn ag ardaloedd pwysig, megis cynllunio cwricwlaidd.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gynhwysfawr gyda ffocws pendant sy'n cyfathrebu blaenoriaethau allweddol yn glir.

Mae athrawon yn datblygu eu gwybodaeth broffesiynol yn briodol trwy gyfarfodydd staff a thrwy gydweithio gydag ysgolion lleol. Fodd bynnag, nid oes ond ychydig o

gyfleoedd i aelodau o staff i archwilio syniadau newydd am ddysgu ac addysgu effeithiol

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Gweithia'r ysgol mewn partneriaeth gydag asiantaethau gwahanol, gan gynnwys yr awdurdod addysg, gwasanaethau statudol ac anstatudol. Ceir hefyd gysylltiadau effeithiol gydag ysgolion lleol. Gweithia'r ysgol yn dda gyda'i hysgolion cynradd partner fel rhan o'r trefniadau clwstwr lleol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n addas gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgol uwchradd er mwyn sicrhau ansawdd asesiadau o waith disgyblion. Mae pontio'r disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd wedi ei drefnu'n dda ac yn sicrhau byddant yn ymsefydlu'n dda ar ôl cyrraedd.

Mae'r partneriaethau gyda'r gymuned leol yn cyfrannu'n gadarnhaol i ehangu'r dewisiadau ar gyfer disgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfoethogi ac yn cefnogi dysgu a lles pob disgybl. Elwa'r disgyblion o gael rhieni, gofalwyr a phobl hŷn yn y gymuned yn eu cynorthwyo gyda gweithgareddau dysgu.

Nid oes cysylltiadau gyda diwydiant oherwydd prinder y cyfleoedd ar gyfer gwaith yn yr ardal leol. Nid oes unrhyw siopau mawr i'r disgyblion ymweld â hwy; fodd bynnag, mae'r ysgol yn prynu ffrwythau o'r siop ffrwythau leol ac fe'i gwerthir gan y disgyblion amser egwyl.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn briodol a chyfeirir cyllid yn gyffredinol at flaenoriaethau strategol. Mae cyllido gofalus yn cydbwyso costau staffio a'r angen am ddarpariaeth effeithiol a chynnal a chadw adeiladau.

Yn gyffredinol, lleolir aelodau staff yn dda. Gwna'r ysgol ddefnydd da o arbenigedd staff, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd cyfoethogi cwricwlaidd. Gwneir defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu sydd ar gael i staff. Mae lleoliad y cymorthyddion dysgu yn dda a chyfrannant yn effeithiol at ddysgu'r disgyblion.

Yn gyffredinol, o ystyried deilliannau'r disgyblion, ansawdd yr addysgu, gofal a chyfarwyddyd, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae canlyniadau asesiadau disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y ddau gyfnod allweddol wedi amrywio cryn dipyn dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r niferoedd cymharol fach yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn yn golygu bod niferoedd yn aml yn rhy fach i allu cymharu'n ddibynadwy.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau yn gyffredinol yn is na'r rhai a ddisgwylir gan blant o'r oedran hwn, yn enwedig mewn iaith. O'r pwyntiau cychwyn isel hyn, mae nifer yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu trwy'r ysgol.

Yng nghyfnod allweddol 1, roedd canlyniadau disgyblion mewn Saesneg a mathemateg yn wael iawn yn 2008 a 2009 ac yn llawer is na chyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu. Ni chyflawnodd yr un disgybl lefel 3 uwch mewn Saesneg yn y pedair blynedd diwethaf ac ni chyflawnodd yr un disgybl lefel tri mewn mathemateg yn 2008, 2010 a 2011. Mae canran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC), sef y lefel disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyffredinol yn is na chymaryddion cenedlaethol, lleol a'r teulu dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae merched wedi perfformio'n llawer gwell na bechgyn yn y tri phwnc craidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae perfformiad disgyblion yn gyffredinol wedi bod yn y trydydd a'r pedwerydd chwartel am y tri phwnc a'r DPC am dair o'r pedair blynedd diwethaf, o'u cymharu ag ysgolion gyda'r un ffigyrau o brydau ysgol am ddim.

Mae darlun tebyg yng nghyfnod allweddol 2 ble mae canlyniadau disgyblion yn gyffredinol wedi bod yn wael ers 2007 ac yn is neu'n llawer is na chyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu. Fodd bynnag, gwellasant yn fawr yn 2010, gan ostwng ychydig unwaith eto yn 2011. Mae merched wedi perfformio yn llawer gwell na'r bechgyn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae perfformiad y disgyblion yn gyffredinol wedi bod yn y trydydd a'r pedwerydd chwartel am y tri phwnc a'r DPC am dair o'r pedair blynedd diwethaf, o'u cymharu ag ysgolion gyda'r un ffigyrau o brydau ysgol am ddim. O'u cymharu â'r ysgolion cyffelyb hyn, mae cyflawniad disgyblion ar y lefel pump uwch wedi amrywio cryn lawer dros y pedair blynedd yn y tri phwnc craidd, ond bu gwelliant amlwg yn 2011 mewn Saesneg a mathemateg.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd tri deg tri o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Roedd pob un o'r disgyblion yn cytuno eu bod yn cael eu trin gyda pharch a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a bod yr ysgol yn delio'n dda gyda bwlio. Roeddynt i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i fod yn iach. Mae pawb o'r farn bod digon o adnoddau ar gael iddynt i wneud eu gwaith a hefyd maent yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae pob un o'r disgyblion yn cytuno bod safonau ymddygiad yn dda yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae ac amser cinio

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Cwblhaodd pymtheg o rieni, neu ofalwyr, yr holiadur ac mae lefel boddhad rhieni gyda'r ysgol yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw rhai ohonynt yn teimlo'n fodlon gyda'r ysgol; nid oeddynt yn meddwl bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol; nid oeddynt hefyd yn cytuno bod yr addysgu'n dda, na chwaith bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn roedd eu plant wedi ei ddysgu yn yr ysgol. Ni chytunodd rhai bod eu plant yn derbyn cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag anghenion unigol. Cytunodd pawb bod eu plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, bod staff yn trin eu plant yn deg a gyda pharch ac y caiff eu plant eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff iachus. Roedd bron pob un wedi mynegi'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Enir R. Morgan | Arolygydd Tîm |
| Mr Gwilym Davies | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Kirsty Bevan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ms Penny Argyle | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |